# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

## Cofnodion (LC2(3)-01-09)

**Dyddiad: 14 Ionawr 2009**
**Amser: 10.00am – 10.06am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Jeff Cuthbert, Caerffili
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Sandy Mewies, Delyn
Jonathan Morgan, Gogledd Caerdydd
Jenny Randerson, Canol Caerdydd
Janet Ryder, Gogledd Cymru

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Sarah Beasley, Clerc
Sarah Sargent, Dirprwy Glerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Anne Thomas, Uwch Swyddog Ymchwil

**Eitem 1: Ethol Cadeirydd**

1.1 Gofynnodd y Clerc i'r Aelodau gynnig enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 10.18. Enwebwyd Val Lloyd gan Jonathan Morgan, ac fe'i hetholwyd.

**Eitem 2: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhodri Glyn Thomas. Roedd Janet Ryder yn dirprwyo ar ei ran.

**Eitem 3: Y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) – trafodion Cyfnod 2**

3.1 Amlinellodd y Cadeirydd y gweithdrefnau ar gyfer ystyried Mesur yng Nghyfnod 2 a dywedodd fod yn rhaid i'r Aelodau gyflwyno unrhyw welliannau erbyn 5.30pm heddiw.

3.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 23.34, penderfynodd y Pwyllgor gwblhau'r gwelliannau yn y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn y drefn a ganlyn:

Adrannau 1-44, yr Atodlen, Adrannau 45-47, y Teitl Hir

3.3 Mynegodd yr Aelodau bryder bod cyn lleied o amser ar gael i'r Pwyllgor gwblhau trafodion Cyfnod 2 ar y Mesur Arfaethedig. Cytunodd yr Aelodau'n unfrydol y dylid ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am estyniad o ddwy wythnos ar gyfer cyflwyno'i adroddiad.